



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau
Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: BrechfaConnection@pins.gsi.gov.uk

Mrs M Jones
Cyngor Cymuned Cynwyl Gaeo
Tremafon
Pumsaint
Llanwrda
SA19 8BQ

Eich Cyf:
Ein Cyf: EN010014
Dyddiad: 4 Medi 2015

Annwyl Mrs M Jones,

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) (PA 2008) a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'i diwygiwyd) (EPR) – Adran 88 a Rheol 6

Cais gan Western Power Distribution (De Cymru) am Orchymyn yn rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Cysylltiad Coedwig Brechfa

Statws Person Arall wrth Archwilio

Cysylltodd yr Arolygiaeth Gynllunio â chi yn dilyn derbyn eich ffurflen sylwadau perthnasol ar 6 Awst 2015 i'ch cynghori nad oeddem yn gallu derbyn eich sylw ar ei ffurf bresennol.

Mae eich cyflwyniad wedi cael ei adolygu erbyn hyn gan yr Awdurdod Archwilio (ExA) a gwnaed penderfyniad i roi statws 'Person Arall' (OP) yn yr archwiliad. Caiff eich sylw ei gyhoeddi fel gohebiaeth ar dudalen we'r prosiect a byddwch yn cael gohebiaeth berthnasol gan yr Arolygiaeth mewn perthynas â'r archwiliad.

O dan Adran 88(3) PA 2008 a Rheol 6(1) Rheolau'r Weithdrefn Archwilio (EPR), gall yr ExA wahodd unrhyw bersonau yr ystyriant eu bod yn briodol i'r cyfarfod rhagarweiniol. Ar gyfer ddibenion gwybodaeth, bydd unrhyw bersonau sy'n cael eu gwahodd i'r cyfarfod rhagarweiniol yn derbyn y llythyr Rheol 8 sy'n cadarnhau amserlen yr archwiliad. Byddant hefyd yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r amserlen o dan Reol 8 (3) yr EPR.

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol nad oes hawl i bersonau eraill wneud sylwadau fel mater o drefn yn ystod yr archwiliad, gan nad oes ganddynt statws partion â buddiant. Os dymunwch wneud sylwadau, fodd bynnag, dylech eu cyflwyno i'r ExA yn unol â'r terfynau amser priodol, a nodwyd yn amserlen yr archwiliad. Mae'n bosibl y byddwch hefyd am ofyn am siarad mewn unrhyw wrandawiadau. O dan yr EPR, mae gan yr ExA ddisgresiwn i ganiatáu sylwadau ysgrifenedig ac ar lafar gan bersonau eraill, i'w darllen neu eu clywed ochr yn ochr â'r archwiliad.

Gall unrhyw berson wneud cais i ddod yn barti â buddiant os ydynt yn bodloni'r meini prawf yn adran 102A y PA 2008. Os oes gennych fuddiant cyfreithiol yn y tir sy'n cael ei effeithio gan y cynllun ac nad ydych eisoes wedi cofrestru i ddod yn barti â buddiant, gallwch wneud cais i'r ExA i ddod yn barti â buddiant o dan adran 102A PA 2008.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen esboniad arnoch mewn perthynas â chynnwys y llythyr hwn, mae pob croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Nicholas Coombes

Nicholas Coombes
Rheolwr Achosion

Mae'n bosibl y rhoddir cyngor am ymgeisio am orchymyn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau am gais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebu hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a phroffesiynol eich hun yn ôl y gofyn.

Caiff cofnod o'r cyngor a ddarperir ei gofnodi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghyd ag enw'r person neu sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Caiff preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Gwybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.